



Cyngor Sir  
CEREDIGION  
County Council



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru

---





Llun Tudalen Flaen: © Jamie Walker o CymruStock – <http://www.cymrustock.co.uk>  
ISBN digidol: 978-1-80391-442-8  
WG43599  
© Hawlfraint y Goron 2021

---

# Cynnwys

---

Rhagair gan y Gweinidog

Y Prif Swyddog Rhanbarthol

Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru

1. Y Broses Gydgyhychu
2. Gwerthoedd a Rennir a Ffyrdd o Weithio
3. Canolbarth Cymru – Ble rydym arni ar hyn o bryd?
4. Canolbarth Cymru – Ble yr hoffem fod?
5. Blaenoriaethau Economaidd
6. Ein Camau Nesaf

---

# Rhagair gan y Gweinidog

---



Mae dull y Lywodraeth hon o ymdrin â lles economaidd yn seiliedig ar yr egwyddor bod lleoedd yn bwysig. Rydym am wireddu ein huchelgais ar gyfer darparu swyddi gwell yn nes at gartrefi pobl, a sicrhau bod pawb ledled Cymru yn mwynhau manteision twf economaidd. Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sy'n cael eu cynllunio ar y cyd â'n partneriaid yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i fodel mwy rhanbarthol ar gyfer datblygu economaidd. Maen nhw'n rhan o'n gwaith i ddatblygu cryfderau arbennig ein rhanbarthau, gan ategu twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, a gwella llesiant ein pobl.

Bydd ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau strwythurol cynhenid rydym yn eu hwynebu mewn modd ymatebol drwy eu troi'n gyfleoedd i greu rhanbarthau deinamig a gwahanol sy'n dangos twf economaidd cynhwysol, teg a chynaliadwy. Byddant yn ein helpu i gynllunio atebion

ar gyfer y dyfodol ar y cyd â'n partneriaid. Mae'n bwysig nodi hefyd y byddant yn ddogfennau byw ac esblygiadol sy'n ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

Mae ein Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer economi llesiant sy'n hyrwyddo ffyniant. Mae'n amgylcheddol gadarn ac yn helpu pawb i wireddu eu potensial. Cafodd ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol eu llunio ar y cyd â'n partneriaid rhanbarthol, a byddant yn gallu chwarae rôl allweddol wrth gyflawni'r weledigaeth hon a sicrhau bod gweithgareddau ar bob lefel yn cyd-fynd i ganolbwyntio ein hadnoddau lle y gallant gael yr effaith fwyaf. Byddant yn ein helpu i sicrhau llais rhanbarthol cryfach ac yn ein galluogi i ychwanegu at y cynnydd a wnaed eisoes o ran datblygu ein heconomiâu rhanbarthol. Bydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i adfer o ddifrod economaidd y pandemig a lliniaru effeithiau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a byddant,

ar yr un pryd, yn darparu'r weledigaeth hirdymor sydd ei hangen ar gyfer economi ranbarthol fwy ffyniannus, gwyrdd a chyfartal.

Caiff ein Cynllun Cymru Sero Net ei gefnogi drwy gyflwyno ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a fydd yn cyflwyno rhanbarthau glanach, cryfach a thecach.

Byddwn yn cynyddu gallu ein hamgylcheddau naturiol ac adeiledig i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid, a galluogi trawsnewid economaidd yn ein rhanbarthau a fydd yn helpu i ddisodli ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, a chreu diwydiannau a swyddi'r dyfodol.

Rwy'n dal i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod y bobl a'r busnesau ar hyd a lled Cymru yn cael pob cyfle i gyflawni datblygiad economaidd hirdymor gydag urddas a thegwch i bawb. Mae ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn rhan bwysig o'r gwaith hwn a byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol gyda'n partneriaid allweddol, a'r nifer fawr o bobl eraill sydd â diddordeb yn yr economi ranbarthol, i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu a manteisio ar gyfleoedd newydd.

Yn benodol, bydd y Fframweithiau'n chwarae rhan allweddol wrth greu'r amodau lle y bydd rhagor o bobl, yn enwedig pobl ddifreintiedig a phobl ifanc, yn teimlo'n hyderus i gynllunio'u dyfodol yng Nghymru.

Mae'r ffordd rydym yn cyflawni yr un mor bwysig â'r hyn rydym yn ei ddarparu, a bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac ysgogi datgarboneiddio wrth wraidd y gwaith hwn.

Rwy'n cydnabod nad oes gan y Llywodraeth ei hun yr holl atebion. Mae dull gweithredu, cydweithredol fesul cam, gan weithio gyda phartneriaid o bob rhan o'r rhanbarth, yn hanfodol i'n llwyddiant. Mae cydweithio â'n partneriaid eisoes wedi arwain at gyd-ddatblygu un weledigaeth a gaiff ei hategu gan gyfres o ganlyniadau a rennir ac a flaenoriaethir, a'i nodi yn y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol newydd hwn ar gyfer i Canolbarth Cymru. Mae'n fframwaith a fydd yn galluogi mwy o gysondeb ac integreiddio ym mhob rhan o'r llywodraeth a bydd yn ysgogi'r cyd-ddatblygiad economaidd a chynllunio strategol rhwng partneriaid sydd eu hangen i lunio dulliau gweithredu newydd a hwyluso cydweithio a thwf economaidd yn y dyfodol. Hoffwn ddiolch i'r holl rhanddeiliaid sydd wedi ymwneud â'r broses hon a chyfrannu ati hyd yn hyn – yn enwedig ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol ac edrychwn ymlaen at barhau â'r sgwrs â phawb sydd â diddordeb mewn economi hanbarthol ffyniannus yn y dyfodol.



**Vaughan Gething AS**  
Gweinidog yr Economi







# Y FFRAMWAITH ECONOMAIDD RHANBARTHOL AR GYFER CANOLBARTH CYMRU

Mae ein Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru, a gafodd ei ddatblygu drwy gydweithio a chydunio â phobl ledled y rhanbarth, yn cefnogi model ar gyfer datblygu economaidd â rhagor o ffocws ar y rhanbarth, yn unol â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, ynghyd ag ymrwymiad i roi ar waith ein Cenhadaeth i Gryfhau ac Adeiladu Economi Cymru. Mae'n amlinellu'r hyn y byddwn yn ei wneud a sut byddwn yn mynd ati.

## EIN GWELEDIGAETH

**“Rhanbarth mentrus ac unigryw sy’n sicrhau twf economaidd sy’n cael ei yrru gan arloesi, sgiliau, cysylltedd a rhagor o swyddi cynhyrchiol, sy’n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog”**

## EIN BLAENORIAETHAU ECONOMAIDD

|                                |                                 |                      |                             |
|--------------------------------|---------------------------------|----------------------|-----------------------------|
| Amaethyddiaeth,<br>Bwyd a Diod | Ymchwil Gynhwysol<br>ac Arloesi | Cysylltiadau Digidol | Ynni                        |
| Menter ac<br>Entrepreneuriaeth | Sgiliau<br>a Chyflogaeth        | Twristiaeth          | Trafnidiaeth<br>a Seilwaith |

← laith, Treftadaeth a Diwylliant Cymru →

## EIN GWERTHOEDD A RENNIR

|                                                                          |                                                                                                    |                                                                            |                                                                                           |                                                                                           |                                                                           |
|--------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|
| <b>Cynwysoldeb</b><br><br>byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith. | <b>Ymddiriedaeth</b><br><br>byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw. | <b>Bod yn Agored</b><br><br>byddwn yn rhannu ein gwybodaeth a'n hadnoddau. | <b>Cydweithio</b><br><br>byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein nodau cyffredin. | <b>Meddwl am y System Gyfan</b><br><br>byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd. | <b>Awydd am Newid</b><br><br>byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu. |
|--------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|


## EIN FFYRDD O WEITHIO

|                                                                                     |                                                                                            |
|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Ar Sail Asedau</b><br>byddwn yn adeiladau ar gryfderau gwybodaeth ein rhanbarth. | <b>Cyberchnogaeth</b><br>byddwn yn rhannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol.             |
| <b>Datblygu Parhaus</b><br>byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol.        | <b>Gweithredu dan Arweiniad y Gymuned</b><br>byddwn yn galluogi newid o lawr gwlad i fyny. |

Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government





© Photo courtesy of Mid Wales Manufacturing Group

# 1. Y Broses Gydgynhyrchu

Dyma'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol cyntaf ar gyfer Canolbarth Cymru, ac mae'n rhan o'r newid i fodel ar gyfer datblygu economaidd sydd â ffocws rhanbarthol. Mae'r fframwaith yn ganlyniad dull gwahanol o weithredu sy'n cynnwys trafodaethau helaeth a chydunio â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ar draws y rhanbarth, yn ogystal ag adeiladu ar waith presennol partneriaid rhanbarthol. Ar gyfer y dull hwn mae gofyn y cwestiynau cywir wedi bod yr un mor bwysig â rhoi'r atebion, a'r Fframwaith hwn yw'r man cychwyn mewn proses barhaus a chydweithredol a fydd yn cael ei hadlewyrchu yn y ffordd rydym yn gweithio yn y rhanbarth.

Mae'r broses ymgysylltu wedi tynnu sylw penodol at y themâu canlynol:

- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Plant a phobl ifanc
- Y Gymraeg
- Yr amgylchedd

Nid yw'r Fframwaith ychwaith i fod yn gynllun busnes anhyblyg neu draddodiadol. Yn hytrach, mae'n darparu fframwaith i nodi sut mae'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cyflawni ar gyfer y rhanbarth ac ar gyfer mannau unigol. Roedd llawer o'r sgysiau a oedd yn llywio'r Fframwaith yn ymwneud nid yn unig â'r hyn y mae'n rhaid inni ei wneud i gynyddu economi'r rhanbarth, ond hefyd â'r ffordd mae'n rhaid inni wneud hynny a'r math o benderfyniadau y bydd angen eu gwneud. Ac wrth wynebu'r heriau sylweddol i economi'r rhanbarth, yn enwedig effeithiau COVID-19, Brexit a llai o adnoddau, mae'n briodol bod y Fframwaith yn penderfynu ble

i ganolbwyntio a pham, gan nodi'r gwahanol rolau a chyfrifoldebau.

Yn unol â'r egwyddor bresennol sydd ar waith, sef adeiladu ar waith sy'n bodoli eisoes a pheidio â dyblygu gwaith, mae'r argraffiad cyntaf hwn o'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn un sy'n fwriadol eang a lefel uchel, gyda llawer o'r sail resymegol fanwl a thechnegol yn y strategaethau datblygu economaidd a'r cynlluniau lleol sydd eisoes yn bodoli neu sydd wrthi'n cael eu datblygu, Er enghraifft, mae llawer o'r meddwl strategol a'r dadansoddi rhanbarthol manwl yn bodoli yn y *Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru a'r Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf (Mai 2020)*. Y tu ôl i'r weledigaeth, mae dull cydweithredol sy'n cael ei lywio gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, gyda phartneriaid yn trafod yn helaeth i weithredu portffolio integredig o fuddsoddiadau, gan gynnwys Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Felly, mae'r Fframwaith yn adlewyrchu'n agos y gwaith presennol ar lefel ranbarthol, a thrwy ddull cynhwysol sy'n seiliedig ar leoedd, mae'n cydnabod heriau a chyfleoedd unigryw'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r cam ymgysylltu yn y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith hwn wedi cadarnhau cryfderau'r rhanbarth, ei brif asedau, yr heriau sydd o'n blaenau ac awydd am ragor o gydweithio a chyfranogi i wella ein rhagolygon economaidd.



## 2. Gwerthoedd a Rennir a Ffyrdd o Weithio

Gwerthoedd a rennir yw'r gwerthoedd hynny sy'n sail i'n camau gweithredu a'n penderfyniadau, ac yn ein galluogi i weithredu mewn modd cydlynus. Maent yn ein galluogi i weithio gyda'n gilydd fel rhanbarth, i siarad ag un llais, ac i sbarduno newid cadarnhaol.

### Cynwysoldeb

Rydym yn gwerthfawrogi cynwysoldeb. Mae pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn buddsoddi yng Nghanolbarth Cymru, a'r rheini sy'n ymweld â'r ardal, yn rhanddeiliad yn ei economi. Mae pob rhanddeiliad yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau, ac wrth wneud penderfyniadau ystyrir effaith y penderfyniadau hynny ar bob rhanddeiliad.

### Ymddiriedaeth

Rydym yn gwerthfawrogi ymddiriedaeth. Er mwyn cydweithio mae'n rhaid inni ymddiried yn ein gilydd. Rhaid inni ymddiried yn y rhai sy'n gofyn inni rannu ein pŵer, ymddiried yn y rhai sy'n gofyn inni rannu eu cyfrifoldeb, a rhaid bod gennym ffydd y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n sicrhau bod buddiannau gorau'r rhanbarth yn ganolog wrth iddynt wneud hynny.

### Bod yn Agored

Rydym yn gwerthfawrogi bod yn agored. Dylai pawb gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn gweithredu er budd gorau'r rhanbarth. Dylid cyfathrebu yn rheolaidd mewn modd sy'n dryloyw o ran data, gan sicrhau'r un lefel o hygyrchedd ar gyfer pawb.

### Cydweithio

Rydym yn gwerthfawrogi cydweithio. Dim ond drwy gydweithio y gallwn sicrhau newidiadau cadarnhaol. Rhaid cydweithio ar draws sectorau a hierarchaethau, gan dderbyn consesiwn a chyfaddawd, a chanolbwyntio ar wneud yr hyn mae angen ei wneud i sicrhau newidiadau cadarnhaol.

### Meddwl am y System Gyfan

Rydym yn gwerthfawrogi meddwl sy'n ystyried y system gyfan. Nid yw economi Canolbarth Cymru yn bodoli'n annibynnol ar bopeth a phawb yn y rhanbarth. O'r herwydd, wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â'n datblygu economaidd, rhaid ystyried sut mae'r canlyniadau yn effeithio ar bawb a phopeth. Rhaid i'r economi weithio ar draws y rhanbarth gyfan a phob cymuned ynddo.

### Awydd am Newid

Rydym yn gwerthfawrogi awydd am newid. Ni ddylid rhoi blaenoriaeth awtomatig i'r ffordd y gwneir pethau'n awr dros y ffordd y gellid gwneud pethau yn y dyfodol. Rhaid inni wneud pob penderfyniad yn ôl ei rinweddau ei hun, a phan fydd angen newid, dylid croesawu hynny.

Mae ein Ffyrdd o Weithio yn nodi sut y byddwn yn cymhwyso ein gwerthoedd a rennir, wrth weithio tuag at ein blaenoriaethau economaidd a rennir. Maent yn darparu'r cefndir ar gyfer diffinio rolau a chyfrifoldebau pob rhanddeiliad.

### Gweithredu ar Sail Asedau

Byddwn yn adeiladu ar ein gwybodaeth bresennol; ar yr hyn rydym eisoes yn ei wneud a'r hyn sy'n gweithio ar hyn o bryd.

---

Rhaid i'n datblygu economaidd adeiladu ar ein llwyddiannau, lleihau gwastraff, a datblygu ein heconomi ar y sylfaen gref sydd gennym a'n cryfderau presennol.

### **Cydberchnogaeth**

Byddwn yn grymuso pobl i fod yn gyfrifol am ddatblygu ein heconomi, ac yn ymdrechu i sicrhau bod pob rhanddeiliad ar draws Canolbarth Cymru yn teimlo ei fod yn berchen ar y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

### **Datblygu Parhaus**

Byddwn yn addasu ac yn datblygu ein Fframwaith Economaidd Rhanbarthol dros amser. Mae economïau'n newid;

mae rhanbarthau'n newid ac mae anghenion rhanddeiliaid yn newid. Mae ein hamgylchiadau a'n cyd-destun presennol yn newid yn barhaus, ac er y bydd ein diben yn parhau, dylai'r ffordd rydym yn hyrwyddo datblygu economaidd rhanbarthol gael ei hadolygu, ei hystyried a'i diwygio'n barhaus.

### **Gweithredu dan Arweiniad y Gymuned**

Byddwn yn gweithio yn unol ag egwyddor sybsidiaredd – rhanddeiliaid a chymunedau sydd yn y sefyllfa orau i ysgogi mewn modd effeithiol y newidiadau y byddant yn manteisio arnynt, a byddwn yn eu grymuso i wneud hynny.



© Jamie Walker o CymruStock  
<http://www.cymrustock.co.uk>

### 3. Canolbarth Cymru – Ble rydym arni ar hyn o bryd?

Mae Canolbarth Cymru yn llawn potensial ac wedi'i hen sefydlu fel lle gwyd i fyw a gweithio ynddo; mae hefyd yn cynnig ansawdd bywyd hynod o dda. Mae'r rhanbarth yn ardal fawr, a'r rhan fwyaf ohono'n wledig. Mae'n cynnwys ardaloedd Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys. Mae'n cyfrif am 34%<sup>1</sup> o arwynebedd tir Cymru ond dim ond tua 7% o boblogaeth Cymru. Mae gan Ganolbarth Cymru dreftadaeth ddiwylliannol gref a chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'n enwog am ei brydferthwch naturiol a'i natur ddiaffordd mewn ardaloedd fel Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Mynyddoedd Cambria.

Mae llawer o'r cyfleoedd ar gyfer twf yn y rhanbarth yn cael eu diffinio gan y ddaearyddiaeth arbennig hon. Canolbarth Cymru yw rhanbarth mwyaf gwledig Cymru, gydag ei amgylchedd naturiol ei hun sy'n cynnwys ardaloedd enwog o ucheldir ac arfordiroedd deniadol, ac mae pob un o'r rhain yn cyfrannu at amaethyddiaeth o'r radd flaenaf, diwydiannau sy'n dibynnu ar y tir a phrofiadol eithriadol o dda ar gyfer twristiaid. Mewn nifer o ffyrdd mae'r ddaearyddiaeth yn diffinio'r economi, gyda threfi marchnad gwasgaredig ac aneddiadau bach sy'n dibynnu ar deithio ar y ffyrdd. Mae'r natur wledig hon yn helpu i gynnal llawer o gymunedau, ac mae perthynas bwysig rhwng yr economi, gwledig cymdeithasol y rhanbarth a'r Gymraeg. Mae'r cysylltiadau economaidd â rhanbarthau eraill hefyd yn hanfodol i dwf y rhanbarth, gyda chysylltiadau ar draws gogledd, de a de-orllewin Cymru

ac â Chanolbarth Lloegr. Mae'r rhanbarth hefyd yn cefnogi capasiti academiaidd ac ymchwil presennol a chlystyrau diwydiannol ym maes gweithgynhyrchu uwch. Mae gan rhanbarth Canolbarth Cymru gyfran uchel iawn o ficrofusnesau, sy'n cael eu hysgogi'n rhannol gan nifer y mentrau amaethyddol, ac yn adlewyrchu pwysigrwydd y sectorau tir. Hefyd mae llawer o swyddi yn y sector llety a gwasanaethau bwyd sy'n dangos pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i'r rhanbarth. Mae addysg ac iechyd hefyd yn gwneud cyfraniadau pwysig at yr economi, gan ddangos rôl allweddol y sector cyhoeddus. Mae gan Ganolbarth Cymru lefelau cymharol isel o anweithgarwch economaidd a lefelau uchel o gyrhaeddiad addysgol – ond mae llawer o bobl ifanc, dalentog yn gadael ac mae eu cadw yn yr ardal yn parhau i fod yn broblem ddifrifol.

Cyn pandemig COVID-19 a diwedd y cyfnod pontio o Undeb Ewropeaidd (Brexit), roedd tystiolaeth dda dros weithredu i wella economi'r rhanbarth gyda chynnyrch domestig gros a gwerth ychwanegol gros gwael, poblogaeth a oedd yn dirywio ac yn heneiddio, cyflogaeth yn lleihau, y farchnad yn methu, cyflogau isel a thlodi gwledig. Yn ogystal, mae'r heriau strwythurol sy'n wynebu canol ein trefi, wedi'u cyflymu gan COVID-19, a phwysigrwydd mynd i'r afael â hyfywedd y farchnad eiddo masnachol yn parhau i beri cryn bryderon. Y pryder mwyaf yw'r dirywio economaidd a ragwelir yn y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf, o'i gymharu â'r twf yn economi'r DU. Mae angen mynd i'r afael â'r cylch hwn o ddirywio ar frys. Mae llawer o'r dystiolaeth

1 Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

a'r meddwl strategol sy'n sail i'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn deillio o'r adeg cyn yr argyfwng COVID-19 ac ymadael â'r UE, ac mae'r Fframwaith yn cydnabod bod llawer o agweddau ar yr economi wedi newid ers hynny. Roedd y digwyddiadau cydlunio ac ymgysylltu a oedd yn llywio'r Fframwaith wedi'u hanelu'n benodol at roi cyfle i drafod y tueddiadau a'r themâu allweddol â chymunedau a rhanddeiliaid. I raddau helaeth, mae hynny wedi cadarnhau ein dealltwriaeth o'r problemau a'r cyfleoedd yn y rhanbarth.

Er y bydd y llinell sylfaen economaidd yn cael ei diweddarau, mae'r dull y tu ôl i'r fframwaith yn parhau i fod yn ddilys – sef cydlunio, gyda rhanddeiliaid a phartneriaid rhanbarthol yn cydweithio i nodi blaenoriaethau a rennir er mwyn gwella economi Canolbarth Cymru. Felly, un o ddibenion y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yw darparu'r fframwaith ar gyfer ymchwilio i heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i economi'r rhanbarth dros y tymor canolig a'r hirdymor, i archwilio themâu sy'n dod i'r amlwg yn ogystal ag ymaddasu i gyflawni blaenoriaethau'r rhanbarth mewn ffordd wahanol.





---

## Asedau Rhanbarthol

Mae gan Ganolbarth Cymru dreftadaeth gref ac mae diwydiannau a sectorau allweddol wedi tarddu o'r ardal, gyda datblygiadau sylweddol mewn asedau rhanbarthol yn rhoi cyfleoedd i greu twf newydd, cynaliadwy a chynhwysol. Bydd pwysigrwydd a photensial economi sylfaenol y rhanbarth hefyd yn rhoi cyfleoedd allweddol i wella rhagolygon Canolbarth Cymru. Mae gan y rhanbarth ymdeimlad cynyddol o hyder ac uchelgais, sy'n seiliedig ar gadernid ei gymunedau a chyfalaf cymdeithasol, ynghyd â hanes balch o arloesi ac entrepreneuriaeth.

Bydd y rhanbarth yn adeiladu ar amrediad o asedau pwysig a gwahanol sy'n seiliedig ar leoedd sy'n cynnwys:

- Y doreth o asedau naturiol eithriadol, trefi marchnad traddodiadol, cymunedau bywiog ac asedau diwylliannol sy'n ategu sector twristiaeth amrywiol a chynyddol,

gan gynnwys harbws, dyfrffyrdd a digwyddiadau

- Y potensial i fod yn rhanbarth carbon isel blaenllaw sydd ar flaen y gad o ran trawsnewid gwyrdd, gan fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu i'w effeithiau
- Capasiti academiaidd ac ymchwil presennol, gydag asedau allweddol yn cynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Aberystwyth
- Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (ArloesiAber) – cyfleusterau o'r radd flaenaf i gefnogi biowyddoniaeth, amaeth-dechnoleg a bwyd a diod, wedi'u cydleoeli â Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)
- Canolfan Gwyddorau Milfeddygol Cymru a VetHub wedi'u cysylltu â Chanolfan Rhagoriaeth Ymchwil i TB Buchol ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan gadarnhau



Canolbarth Cymru fel un o'r arweinwyr wrth ddarparu gwasanaethau i'r sector amaethyddiaeth a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o filfeddygon yn y DU

- Yr amgylchedd unigryw ar gyfer Systemau Awyrennau a Weithredir o Bell dros Fae Ceredigion ac yn fewndirol tuag at yr Epynt, sy'n galluogi profi systemau di-griw a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg
- Clystyrau diwydiannol o fewn y sector gweithgynhyrchu uwch, gydag arbenigedd mewn meysydd fel awtomeiddio, peirianeg symudedd a biotechnoleg/gwyddorau bywyd, ac arbenigedd yn y sectorau gwerth uchel ac ymchwil ddwys fel Sbectrwm, a Hydrogen
- Canolfan y Dechnoleg Amgen (CAT) fel canolfan ragoriaeth ar gyfer datblygu a byw cynaliadwy
- Canolfan Bwyd Cymru yn Llandysul, gan gynnwys Prosiect HELIX/Arloesi Bwyd Cymru a'r potensial i ddefnyddio Maes

Sioe Frenhinol Cymru i arddangos ein bwyd a dangos o le mae'n dod, gan adeiladu ar hanes y rhanbarth fel arloeswr mewn cynhyrchu bwyd organig

- Datblygu Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn Ystradgynlais fel arweinydd y DU ym maes technoleg, ymchwil a datblygu rheilffyrdd yn y dyfodol.

Drwy ddefnyddio dull o ddatblygu ac adeiladu'r economi ranbarthol sy'n seiliedig ar leoedd, rydym yn cydnabod y cyfleoedd i adeiladu ar ein cryfderau unigol, gan gynyddu ein buddsoddiadau mewn canol trefi; bydd hynny'n cynnwys darparu mynediad gwell i fannau agored, creu canolfannau gweithio o bell a gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch, gan fabwysiadu egwyddor 'Canol Trefi'n Gyntaf' pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau.





## 4. Canolbarth Cymru – Ble yr hoffem fod?

Mae partneriaid rhanbarthol wedi cytuno ar weledigaeth a rennir ar gyfer Canolbarth Cymru i:

- fod yn rhanbarth mwy mentrus ac unigryw
- sicrhau twf economaidd sy'n cael ei sbarduno gan arloesedd, sgiliau a chysylltedd
- creu rhagor o swyddi cynhyrchol sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog

Bydd partneriaid rhanbarthol yn gweithio tuag at weledigaeth y rhanbarth ac yn dod yn fwy:


- **Unigryw** – rhanbarth sydd â thirwedd a threftadaeth naturiol a diwylliannol unigryw, sy'n cynnig ansawdd bywyd eithriadol a'r potensial i ysgogi cynaliadwyedd amgylcheddol ac arwain datgarboneiddio a thwf glân yn y DU.
- **Mentrus** – ar agor ar gyfer busnes, hen a newydd. Lle i ddechrau a datblygu mentrau i wella cynhyrchiant rhanbarthol ac sy'n cynnig ansawdd bywyd da.

- **Medrus** – marchnad lafur fedrus a hyblyg sy'n cael ei hategu gan ddysgu academiaidd a galwedigaethol sy'n ymateb i ofynion y diwydiannau yn y rhanbarth drwy wrthdroi tueddiadau presennol lle mae'r boblogaeth yn allfudo.
- **Arloesol** – lleoliad ar gyfer profi syniadau arloesol a datblygu cynhyrchion a phrosesau newydd, gan fanteisio i'r eithaf ar ymchwil a chryfderau presennol diwydiant, a chreu clystyrau diwydiannol newydd/cryfhau clystyrau presennol.
- **Wedi'i gysylltu** – rhanbarth sydd wedi'i gysylltu'n llawn, gan ryddhau ei botensial economaidd i sbarduno twf ac arloesedd ym maes busnes a gwella symudedd cymdeithasol a llafur.
- **Cynhyrchol** – economi gref a chynhyrchol sy'n darparu'r amodau cywir i fusnesau greu swyddi o ansawdd gwell sy'n talu cyflogau uwch, ochr yn ochr â chyfleoedd cyflogaeth gwell.
- **Ffyniannus** – economi ranbarthol sy'n seiliedig ar degwch a chyfle cyfartal gyda llwybrau hyfforddi a chyflogaeth hygyrch.



# Canolbarth Cymru – Cipolwg

## Cryfderau/Cyfleoedd



## Gwendidau/Bygythiadau

Cynhyrchiant  
ac enillion isel  
ynghyd â sylfaen  
economaidd gul  
a bregus

Y dirywiad  
cyflogaeth  
a ragwelir

Methiant y  
farchnad a natur  
gudd economi  
wledig

Effaith bosibl  
Brexit ar yr  
economi wledig  
a chymunedau

Marchnad lafur  
statig a gwannach

Poblogaeth sy'n  
heneiddio – lleihad  
yn y boblogaeth  
oedran gweithio ac  
allfudo talent ifanc

Cysylltedd gwael  
o ran TGCh a  
thrafnidiaeth  
diffyg seilwaith  
busnes modern



## 5. Blaenoriaethau Economaidd

Set o flaenoriaethau economaidd a rennir yw'r meysydd hynny sy'n rhoi sylw i lle y gall gweithredu a buddsoddi ar y cyd sicrhau'r manteision mwyaf posibl i bawb ledled y rhanbarth, gan fanteisio i'r eithaf ar ein cryfderau a'n hasedau. Mae'r corff presennol o waith a wnaed gan bartneriaid rhanbarthol i lunio'r *Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf (Mai 2020)* yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer nodi set o flaenoriaethau datblygu economaidd rhanbarthol, sy'n cael eu cefnogi gan randdeiliaid rhanbarthol ac a gafodd eu hatgyfnerthu yn ystod ein cyfnod ymgysylltu ar gyfer y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol:

### Amaethyddiaeth, bwyd a diod

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i amaethyddiaeth, bwyd a diod. Mae sector amaethyddol cryf a bywiog sy'n cynhyrchu cynhyrchion o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu ein sylfaen economaidd yn sylweddol a llywio datblygiadau bwyd newydd uchel eu gwerth.



### Ymchwil gymhwysol ac arloesi

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ymchwil gymhwysol ac arloesi. Mae Canolbarth Cymru yn gartref i ddiwydiannau o arwyddocâd rhyngwladol ac asedau ac arbenigedd ymchwil a datblygu a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n cynnig cyfleoedd i sbarduno cynhyrchiant a thwf rhanbarthol.

### Cysylltedd digidol

Byddwn yn gwella cysylltedd digidol fel galluogwr hanfodol. Rhaid i'n seilwaith digidol alluogi pawb sy'n byw, gweithio a buddsoddi yn y rhanbarth i gysylltu â'i gilydd a'r farchnad fyd-eang. Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau nad oes neb yn cael ei allgáu o gymryd rhan yn ein heconomi oherwydd diffyg cysylltedd digidol.

### Ynni

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ynni fel thema allweddol. Mae Canolbarth Cymru mewn sefyllfa dda iawn i arwain yr ymdrechion i ddatblygu atebion ynni gwyrdd, diogelu ein hamgylchedd ac arwain yr ymdrechion i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

### Menter ac entrepreneuriaeth

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i entrepreneuriaeth ac yn cydnabod pwysigrwydd yr economi sylfaenol. Ein gweledigaeth yw economi gref, gadarn ac amrywiol yng Nghanolbarth Cymru sy'n galluogi mentrau i ddechrau, tyfu a ffynnu gyda'r cymorth a'r seilwaith cywir.

### **Sgiliau a chyflogaeth**

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i sgiliau a chyflogaeth. Bydd sicrhau bod y sgiliau priodol a gweithlu medrus ar gael i ddiwallu gofynion ac anghenion busnes a diwydiant yn hanfodol i'n llwyddiant yn y dyfodol.

### **Profiadau gwell ar gyfer twristiaid**

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i dwristiaeth gwerth uchel. Mae Canolbarth Cymru yn rhanbarth unigryw sydd ag asedau naturiol eithriadol fel ei harfordir, trefi marchnad deniadol ac amrediad amrywiol o ddigwyddiadau blynyddol sy'n sail i sector twristiaeth bywiog, sy'n darparu plattfform cryf i sbarduno datblygiadau newydd ym maes twristiaeth sy'n gynaliadwy ac yn rhoi gwerth ychwanegol.

### **Trafnidiaeth a Chysylltedd**

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i dtrafnidiaeth a seilwaith cynaliadwy. Mae angen inni wella cysylltiadau â'r rhanbarth ac oddi mewn iddo er mwyn helpu i ddatblygu'r economi a chynyddu cynhyrchiant, yn ogystal â chreu'r amodau ar gyfer datblygu busnes a thwf drwy bortffolio o safleoedd ac adeiladau sy'n cyd-fynd â'n cryfderau.

Ni ddylai'r wyth thema hyn weithredu ar eu pennau eu hunain ond dylid ceisio eu halinio â'i gilydd lle bo modd i ddarparu synergedd a gwerth ychwanegol ac i sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd. Byddwn hefyd yn rhoi blaenoriaeth i'n hiaith, ein treftadaeth a'n diwylliant fel thema sylfaenol ar draws ein meysydd â blaenoriaeth – rhaid i'n dull ni o ddatblygu economaidd wella'r cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a hyrwyddo ein treftadaeth a'n diwylliant cyfoethog.



---

## 6. Ein Camau Nesaf

---

Drwy gydol y fersiwn gyntaf hon o'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru byddwn yn ceisio:

- Gweithio gyda'n gilydd fel rhanbarth, gan gydnabod bod y ffordd yr ydym yn cyflawni yr un mor bwysig â'r hyn yr ydym yn ei gyflawni, a chroesawu'r ffyrdd o weithio a amlinellir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yn ein hymdrechion i adeiladu economi ranbarthol gryfach a gwyrddach wrth inni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio
- Parhau i ymchwilio i fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi newidiadau megis effeithiau COVID-19, Brexit a newidiadau demograffig gan gynnwys y ffordd orau o sicrhau bod rhagor o'n pobl ifanc yn aros yn y rhanbarth
- Archwilio sut rydym yn mesur llwyddiant yn ein rhanbarth – gan ystyried cyfres ehangach o lawer o ddangosyddion sy'n ystyried mwy na'r economi'n unig ac sy'n adlewyrchu lles y rhanbarth yn ogystal â'i ffyniant
- Datblygu ymhellach a chyflawni'r wyth blaenoriaeth sy'n ganolog i ddatblygu Bargaen Twf Canolbarth Cymru a'i gweithredu yn y dyfodol, gan gydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, treftadaeth a diwylliant yn sail i'r gwaith hwn
- Cydweithio â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu'r sgiliau cywir ar gyfer gweithlu'r dyfodol, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r rhanbarth ar gyfer datblygu economaidd, gan sicrhau hyblygrwydd a chyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a chyflogadwyedd i bawb, a sgiliau y gellir eu trosglwyddo i feysydd newydd wrth i dechnoleg ddatblygu
- Llywio a dylanwadu ar y gwaith o gynllunio a chyflwyno polisiau cenedlaethol yn y dyfodol mewn meysydd fel datblygu economaidd, sgiliau ac adfywio i lunio rhaglenni a chyfleoedd ariannu i ddiwallu anghenion a chyfleoedd unigryw Canolbarth Cymru
- Bod yn hyderus wrth hybu a hyrwyddo rhanbarth Canolbarth Cymru fel ardal llawn cyfleoedd economaidd, yn lle uchelgeisiol a deniadol i fyw ynddo ac yn lle mae pobl yn awyddus i fuddsoddi ynddo – ardal sy'n cynnig swyddi â chyflogau da ar gyfer gweithwyr medrus
- Parhau â'r sgwrs am gyfeiriad yr economi yn y dyfodol gyda'r holl randdeiliaid a chymunedau sydd am weld Canolbarth Cymru sy'n gynaliadwy ac yn llwyddiannus
- Datblygu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol drwy fersiynau yn y dyfodol a fydd yn adlewyrchu'r cyd-destun a'r dirwedd ranbarthol wrth iddi esblygu, mewn perthynas â chyfleoedd ar gyfer buddsoddi rhanbarthol a threfniadau llywodraethu sy'n cael eu datblygu fel Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- Ystyried a datblygu dull priodol o fonitro a gwerthuso ein cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion, gan gynnwys cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau strategol a ffyrdd o weithio, ac sy'n ein galluogi i ymateb i amgylchiadau sy'n newid



